Pennod 3

Partneriaethau Cyflogaeth Ieol

Pennod tri – Partneriaethau Cyflogaeth leol

Rhagarweiniad

1. Credwn fod angen i ni ymdrin â'r heriau i gyflawni cyflogaeth lawn drwy ddiwygiad egwyddorol yn seiliedig ar ein gwerthoedd.

2. Yr egwyddorion a fydd yn ein llywio yw:

   - **cydbwysedd o ran hawliau a chyfrifoldebau**: mae ar lawer o bobl sy'n gallu gweithio angen cymorth i chwilio am waith a goresgyn rhwystrau. Mae arnynt angen cymorth ariannol hefyd tra eu bod allan o waith. Yn dâl am hyn dylem ddisgwyl i bobl sy'n derbyn budd-dâl wneud popeth a allant i helpu eu hunain i fynd i mewn i waith;

   - **dull wedi ei bersonoli ac ymatebol**: dylai'r system deilwrio cymorth i ateb anghenion unigol, gan gynnwys cymorth gyda sgiliau, iechyd, gofal plant, cymorth ariannol a chyrchu at hyfforddiant priodol;

   - **cadw a sicrhau dilyniant, nid dim ond cael i mewn i swydd**: rhaid i'r system wneud mwy i helpu pobl i aros mewn gwaith a symud i fyny'r ysgol drwy well cymorth mewn gwaith – drwy gyngor, ysgogiadau ariannol a hyfforddiant;

   - **gweithio mewn partneriaeth**: mae'n bwysig gwneud y defnydd gorau o arbenigedd ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r drydedd sector. Dylai adnoddau pob un ganolbwyntio ar ble y gallant ychwanegu'r gwerth mwyaf, yng nghyd-destun strategaeth glir a set o ddeilliannau angenrheidiol; a

   - **datganoli a galluogi lleol**: gall holl ranbarthau a gwledydd y Deyrnas Unedig, dinasoedd a chymdogaethau, chwarae rôl bwysig i nodi blaenoriaethau strategol a chyflwyno atebion, a dylai hyn gael ei gydnabod.

3. Wrth galon ein diwygiadau rhaid i ni fod â sicrwydd bod pobl sy'n barod i ac yn gallu gweithio yn cael swydd. Yn y bennod hon, cyflwynwn ein cynlluniau ar gyfer 'Addewid Swyddi' newydd a fydd yn cynnig chwarter miliwn o gyfleoedd am swyddi ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat i bobl sydd wedi bod ar fudd-dâl am gyfnod hir.

4. Ym Mhennod 4 cyflwynwn sut y bwriadwn ddiwygio ein rhaglenni cyflogaeth i sicrhau bod pobl sy'n wynebu'r heriau mwyaf i gael gwaith yn y sefyllfa orau posibl i elwa o'r 'Addewid Swyddi'.

5. Mae Pennod 5 yn ystyried sut y byddwn yn cyflwyno'r newidiadau hyn drwy bartneriaeth ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r drydedd sector a thrwy ddatganoli i ardaloedd lleol.

Addewid Swyddi

6. Mae gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr yn hanfodol i gwrdd â'r her o ddiwygio lles ac yn hanfodol i gyflawni ochr galw ein strategaeth. Gall cyflogwyr gynnig swyddi i'r cannoedd o filoedd o bobl sy'n wynebu anfanteision yn y farchnad lafur. Gall Canolfan Byd Gwaith, yn gweithio yn Lloegr gyda'r Cyngor Dysgu a Sgiliau a darparwyr eraill, sicrhau bod pobl sydd o dan anfantais yn gallu cyrchu at y swyddi hyn drwy baratoi pobl ar gyfer rolau penodol a sicrhau bod cyflogwyr yn cael yr ymgeiswyr wedi eu hyfforddi y mae arnynt eu hangen. Bydd Canolfan Byd Gwaith hefyd yn gweithio gyda Gweithrediaeth yr Alban a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu dull cyfatebol ar gyfer yr Alban a Chymru.

7. Mae hyn yn ffurfio craidd yr hawliau a'r cyfrifoldebau yn y system symud o fudd-dâl at waith. Disgwyliwn i unigolion fanteisio ar yr holl gyfleoedd sy'n agored iddynt i baratoi eu hunain ar gyfer gwaith. Gall hyn olygu ymgymryd â hyfforddiant byr mewn sgiliau sy'n canolbwyntio ar waith, i wella eu cyflogadwyedd. Gall olygu cysylltu â'r llu o gefnogaeth sydd yn cael ei gynnig, a chwilio am swyddi. Gall olygu cymryd rhan mewn treialon gwaith ac ystyried swyddi addas.

8. Yn dâl am hyn gall unigolyn ddisgwyl cael ei helpu i baratoi ar gyfer a darganfod swyddi priodol. Bydd cymorth a chefnogaeth yn cael ei dargedu'n arbennig at y bobl hynny gyda'r anfantais fwyaf yn y farchnad lafur. Bydd hyn yn cynnwys rhieni sengl, pobl anabl a'r rhai hynny gyda chyflyrau iechyd tymor hir a'r rhai gyda'r cymwysterau isaf.

9. Hoffem weld cyflogwyr yn ystyried cwsmeriaid o dan anfantais ar gyfer eu swyddi gwag ac yn dâl am hynny byddant yn cael cymorth i nodi a pharatoi'r bobl iawn ar gyfer y swyddi gwag hynny. Gall hyn olygu ymrwymo i dreialon gwaith; darparu hyfforddiant ymsefydlu a thechnegol addas i unigolion heb y profiad gwaith priodol; ac ystyried mentora gweithwyr. Byddai'r rhai hynny sy'n cwblhau rhaglen cyn-cyflogaeth yn llwyddiannus yn cael gwarant o gyfleoedd swyddi. Gallem hefyd ofyn i gyflogwyr adolygu eu prosesau ymgeisio am swyddi a hyblygrwydd cyflogaeth i gefnogi arferion recriwtio tecach a mwy cynhwysol. Yna gall cyflogwyr sicrhau nad yw eu prosesau yn anfwriadol yn allgau pobl drwy ofyn am gymwysterau diangen neu gynnwys cymhlethdodau neu gyfyngiadau diangen.

10. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith eisoes yn gweithio gyda 400,000 o gyflogwyr bob blwyddyn ac yn cymryd dros 10,000 o swyddi gwag newydd bob diwrnod gwaith. Rydym am ddatblygu'r cysylltiad hwn â chyflogwyr i wella'r gwasanaeth a gynigiwn iddyn nhw ac i'n cwsmeriaid unigol i wneud cynnydd cyflymach a mwy effeithiol gyda'n agenda o fudd-dâl i waith.

11. Yn natganiad y Gyllideb 2007, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys ei fod yn cyflwyno Partneriaethau Cyflogaeth Lleol newydd, gyda'r ffocws ar y sector adwerthu i ddechrau. Mae'r partneriaethau hyn yn darparu dull newydd o edrych ar y gwaith y mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ei wneud gyda chyflogwyr, gan ddatblygu ar y gwaith a wnaed gyda chyflogwyr o dan y Fargen Newydd. Bwriedir iddynt helpu i sicrhau bod y gefnogaeth ar gyfer pobl sydd wedi bod yn ddi-waith dros dymor hir a grwpiau eraill y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn eu paratoi ar gyfer byd gwaith, gan ddarparu'r sgiliau a'r ysgogiad y mae arnynt eu hangen i ateb disgwyliadau cyflogwyr.

12. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda'r pump o gwmnïau adwerthu cyntaf i arwyddo cytundeb yn dilyn cyhoeddiad y Gyllideb ac mewn enghreifftiau eraill o weithio gyda chyflogwyr (gweler y blwch isod). Dilynwyd y pum cwmni hwn yn gyflym gan fwy o gwmnïau adwerthu a chwmnïau ar draws sectorau eraill gan gynnwys diogeledd, croeso a rheoli cyfleusterau.

Enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth gyda chyflogwyr

Mae **Tesco** wedi cofleidio Partneriaethau Cyflogaeth Lleol gyda thargedau clir ar gyfer treialon gwaith a chanlyniadau disgwyliedig o ran swyddi. Maent wedi gweithredu mesurau ar gyfer Tesco Extra newydd yn Failsworth, ger Oldham, lle maent newydd orffen recriwtio am oddeutu 400 o swyddi. Llenwyd un rhan o bump o'r swyddi newydd gan gwsmeriaid sydd wedi bod ar fudd-daliadau am dymor hir. Mae Tesco wedi gosod her iddo'i hun o ymestyn y gwaith mae wedi ei wneud yn Failsworth i ddarparu sicrwydd o swydd i gyfran o'r holl swyddi sy'n cael eu creu o'r newydd.

Mae **Marks and Spencer** eisoes wedi gweithredu Partneriaethau Cyflogaeth Lleol drwy eu rhaglen Marks and Start, a anelir at rieni sengl, pobl ddigartref, pobl gydag anableddau a phobl ifanc ddi-waith. Recriwtiwyd dros 250 o bobl a gwblhaodd y rhaglen yn llwyddiannus naill ai gan Marks and Spencer eu hunain neu gan gwmnïau adwerthu eraill. Mae Canolfan Byd Gwaith bellach yn trafod ymestyn y rhaglen i gefnogi cynlluniau recriwtio pellach y cwmni.

B&Q: Mae Canolfan Byd Gwaith a B&Q newydd lunio cytundeb i weithio gyda'i gilydd i lenwi hyd at 300 o swyddi gwag mewn warws newydd yng Nghaeredin. Bydd cyfleoedd ar gael i bobl sy'n dymuno datblygu gyrfa mewn adwerthu, beth bynnag yw eu hoed neu brofiad. Bydd Canolfan Byd Gwaith yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau recriwtio drwy'r ddinas yn ystod yr wythnosau sydd i ddod i weld faint o ddiddordeb sydd yna a'r ffordd orau o gefnogi recriwtio.

HBOS: Mae Canolfan Byd Gwaith wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r sector cyllid i chwalu rhai o'r rhwystrau y mae rhai sy'n chwilio am waith yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i waith. Mae HBOS (Halifax Bank of Scotland) yn awyddus i weithio'n broactif i recriwtio o blith ein cwsmeriaid y rhoddir

blaenoriaeth iddynt. Cyflwynwyd cwrs cyn-recriwtio o'r enw 'Job Fit' sy'n cael ei redeg gan Gweithredu dros Gyflogaeth. Mae'n rhaglen wirfoddol sy'n cynnig 13 wythnos o gefnogaeth wedi ei deilwrio i sicrhau bod cwsmeriaid yn hyderus ac yn gallu cyfathrebu eu sgiliau mewn cyfweliad. Bydd First Direct yn ogystal â HBOS yn defnyddio'r cwrs a hefyd yn cynnig trefniadau hyblyg ac addasiadau yn eu proses recriwtio.

Mae **Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Brenhinol Salford** wedi datblygu ffyrdd i'n cwsmeriaid y rhoddir blaenoriaeth iddynt ymgeisio am swyddi gwag o fewn yr Ymddiriedolaeth. Mae'r rhain wedi cynnwys 'siopau swyddi' misol a gefnogir gan y Ganolfan Waith leol. Cymerir ceisiadau ac maent yn cael eu pwyso a'u mesur ar y diwrnod a chyfeirir unrhyw un y teimlir a fyddai'n elwa o hyfforddiant at gwrs hyfforddi cyn-recriwtio sy'n cynnwys sesiynau blasu gwaith. Cynhelir y cyrsiau dair gwaith y flwyddyn i ddeg o bobl ac mae ganddynt gyfradd llwyddiant o 70 y cant. O ganlyniad i'r cynlluniau hyn, mae cwsmeriaid y rhoddir blaenoriaeth iddynt bellach yn gweithio yn yr Ymddiriedolaeth ac mae'r Ymddiriedolaeth yn arbed £300,000 ar ei gyllideb hysbysebu.

BUPA: Arweiniodd partneriaeth rhwng y Ganolfan Byd Gwaith, BUPA a Fair Cities yn Birmingham at gwrs cyn-recriwtio a anelwyd at lenwi swyddi cynorthwywyr gofal mewn cartref gofal yn Birmingham. Roedd yn gwrs wythnos wedi ei anelu at leiafrifoedd ethnig. Roedd cymorth wrth law gan BUPA a gweithwyr estyn allan i baratoi'r ymgeiswyr am y broses recriwtio yn ogystal â darparu gwybodaeth werthfawr ynglŷn â beth roedd y dyletswyddau yn ei olygu. O ganlyniad, gosodwyd 28 o bobl ar y cwrs gyda 50 y cant yn derbyn cynigion swydd. Mae cynlluniau ar y gweill i barhau â'r gweithgaredd hwn yn Birmingham ar sail fisol a'i gyflwyno ymhellach i Brent a Bradford.

London Underground: Comisiynwyd Fair Cities i recriwtio 200 o gynorthwywyr gwasanaeth cwsmer i London Underground Limited o blith pobl sy'n byw mewn wardiau difreintiedig yn Brent. Dylunwyd rhaglen cyn-gwaith i ddatblygu hyder ac i wella sgiliau sylfaenol ar gyfer pobl ddi-waith o ardaloedd difreintiedig. Roedd yn cynnwys asesiadau sgiliau sylfaenol, cynllun hyfforddi unigol i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd, hyfforddiant ysgogiad a hyfforddiant ar gyfer cyfweliad yn seiliedig ar hyfedredd.

Roedd tua deuparth (68.6 y cant) o'r ymgeiswyr o'r wardiau mwyaf difreintiedig yn Brent ac roedd 85 y cant o blith lleiafrifoedd ethnig. Mae Clymblaid Cyflogwyr Llundain yn gweithio ar hyn o bryd gyda Fair Cities i gyflwyno'r rhaglen ar draws Llundain drwy'r Ganolfan Byd Gwaith.

13. Yn awr mae angen i ni greu momentwm. Byddwn yn creu 'Addewid Swyddi' newydd lle byddwn yn anelu at gyflogwyr mawr, yn y sectorau preifat a chyhoeddus, i gynnig chwarter miliwn o gyfleoedd swyddi. Bydd y cyfleoedd hyn ar gyfer pobl sydd o dan anfantais yn y farchnad lafur - fel rhieni sengl a rhai ar fudd-daliadau analluogrwydd – cyn belled ag y bônt yn cysylltu â'r cymorth sydd ar gael ac yn barod i, yn awyddus i ac yn gallu gweithio. Credwn y bydd yr ymrwymiad cenedlaethol newydd hwn yn rhoi mwy o gyfle i'r unigolion hyn gystadlu am y 600,000 o swyddi gwag sy'n ymddangos yn y farchnad lafur bob mis. Oherwydd ein bod yn rhoi llawer mwy o gefnogaeth i unigolion ennill y sgiliau angenrheidiol sy'n ofynnol i dderbyn y swyddi hyn, dylem, yn ein tro, ddisgwyl iddyn nhw gymryd mwy o gyfrifoldeb eu hunain am ddod o hyd i waith.

14. Bydd yr addewid hon yn golygu cydweithio agos rhwng Canolfan Byd Gwaith, y Cyngor Dysgu a Sgiliau, a darparwyr eraill i gefnogi cyflogwyr fel partneriaid hanfodol i gwrdd â'r her o fudd-dâl i waith. Bydd hon yn enghraifft allweddol o system fwy integredig ar gyfer sgiliau a chyflogaeth fel yr argymhellwyd yn Adolygiad Leitch. Bydd yr 'Addewid Swyddi' yn cyd-fynd ag Addewid Sgiliau bresennol y Llywodraeth yn Lloegr, y mae cyflogwyr yn ymrwymo drwyddi i gefnogi eu gweithwyr a rhai sy'n cael eu recriwtio o'r newydd i wella eu sgiliau ac ennill gwell cymwysterau (fel isafswm mae hyn yn golygu cefnogi cymwysterau llythrennedd a rhifedd, a gweithio tuag at gyflawni'r cymwysterau lefel 2 llawn cyntaf).

15. Gall Canolfan Byd Gwaith gynnig gwasanaeth i gyflogwyr sy'n cyfateb yr ymgeiswyr gyda'r potensial iawn â'r swyddi gwag a gall, ynghyd â'r Cyngor Dysgu a Sgiliau a darparwyr lleol, drefnu asesiad a hyfforddiant cyn recriwtio wedi ei deilwrio'n arbennig. Yna gall cyflogwyr fod yn hyderus fod gan y bobl y maent yn eu recriwtio'r sgiliau sy'n angenrheidiol i wneud y swyddi. Bydd ymgynghorwyr Canolfan Byd Gwaith yn gweithio'n frwd gyda grwpiau difreintiedig i fesur eu hanghenion a'u hannog i edrych ar y swyddi gwag hyn. Mae'r dull hwn, ynghyd â'r system cyflogaeth a sgiliau integredig a argymhellir ym Mhennod 4, yn rhoi teclyn cynhwysfawr i ymgynghorwyr Canolfan Byd Gwaith i helpu'r rhai gyda'r sgiliau isaf i ddod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy.

16. Yn dibynnu ar anghenion y cyflogwr a'r unigolyn, gallai Canolfan Byd Gwaith, gyda'r Cyngor Dysgu a Sgiliau a darparwyr eraill, ddarparu amrywiaeth o gefnogaeth gan gynnwys:

- gweithio gydag unigolion i ddadansoddi eu hanghenion i'w galluogi i ddychwelyd i waith a'u helpu i ymdrin ag unrhyw rwystrau i waith, gan gynnwys sgiliau ac ysgogiad;
- hyfforddiant cyn cyflogaeth i baratoi pobl ar gyfer mathau arbennig o swyddi ac eglurhad o'r cyngor am sgiliau sydd ar gael drwy'r Gwasanaeth Gyrfaoedd i Oedolion;
- dylunio a chyflwyno hyfforddiant fel bod gan unigolion y sgiliau ar gyfer cyflogadwyedd sy'n angenrheidiol ar gyfer y swyddi sydd ar gael;

- trefnu a chefnogi treialon gwaith, fel y gall yr unigolyn a'r cyflogwr gadarnhau cyfatebiaeth briodol ar gyfer y swydd cyn ymrwymo eu hunain ar sail barhaol;
- cefnogi unigolion yn y trawsnewid o fudd-dâl at waith;
- cyfateb unigolion gyda chyflogwyr i sicrhau eu bod yn gweddu'n dda i'w gilydd;
- gweithio gyda chyflogwyr i ddeall eu hanghenion o ran cyflogaeth a sgiliau a'u helpu i addasu eu polisïau a'u prosesau recriwtio i sicrhau bod mwy o swyddi gwag ar gael i bobl ddifreintiedig lleol mewn grwpiau targed fel rhieni sengl;
- cyflwyno rheolwyr Partneriaeth Cyflogaeth Leol newydd i sicrhau bod swyddi a ymrwymir gan gyflogwyr yn cael eu llenwi'n gyflym ac yn effeithiol gydag ymgeiswyr addas drwy gyswllt ag ymgynghorwyr personol; a
- gweithio gyda chyflogwyr i gyflwyno hyfforddiant mewn gwaith drwy Hyfforddi er meyn Elwa (*Train to Gain*)[7] fel y gall y rhai sy'n cael eu recriwtio o'r newydd barhau i ddatblygu eu sgiliau a'u gyrfaoedd mewn gwaith.

17. Yn ychwanegol, bydd rheolwyr cyfrifon cyflogwyr Canolfan Byd Gwaith yn gweithio drwy gynlluniau recriwtio gyda chyflogwyr yn lleol i sefydlu'r ffordd orau o'u cefnogi. Yn ganolog, bydd Canolfan Byd Gwaith hefyd yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd i Oedolion, y Cyngor Dysgu a Sgiliau a'r Cynghorau Sgiliau Sector i ddylunio pecynnau hyfforddi cyn gwaith. Cysylltir y rhain gyda threialon gwaith, cyfweliadau gwarantedig a chyfleoedd swydd ar gyfer cwsmeriaid ar fudd-dâl.

18. Ers y cyhoeddiad gwreiddiol yn y Gyllideb rydym eisoes wedi arwyddo dros ugain yn fwy o gwmnïau ac wedi ymestyn y sectorau i gyllid, croeso, cyfleusterau rheoli, diogeledd a'r sector cyhoeddus. Dyma rai enghreifftiau o gwmnïau yn y sectorau hyn:

Cyllid	Royal Bank of Scotland
Croeso	Intercontinental Hotel Group and JD Wetherspoons
Rheoli cyfleusterau	Carillion and City Facilities Management
Diogeledd	OCS
Sector cyhoeddus	Cyngor Sir Gwlad yr Haf

Mae cwmnïau ychwanegol o'r sector adwerthu yn cynnwys Debenhams a Wilkinson.

[7] Mae Hyfforddi er mwyn Elwa (*Train to Gain*) yn wasanaeth i helpu busnesau i gael yr hyfforddiant y mae arnynt ei angen i lwyddo. Mae'n cynnig gwasanaeth broceru sgiliau am ddim i gyflogwyr, hyfforddiant y rhoddir cymhorthdal llawn tuag ato i weithwyr gyda sgiliau isel hyd at gymhwyster lefel 2 llawn cyntaf a gwybodaeth, cyngor a chanllawiau am ddim.

19. Mae rheolwyr cyfrifon Canolfan Byd Gwaith yn gweithio bob dydd i arwyddo mwy o gyflogwyr i'r cynllun ac i gael manylion am y lleoliadau penodol a nifer y swyddi gyda'r cyflogwyr sydd eisoes wedi arwyddo i ymuno â'r cynllun. Gyda maint y dasg y mae'r Llywodraeth yn ei hwynebu yn nhermau adeiladu tai newydd ac adeiladu safle ar gyfer Gemau Olympaidd 2012, byddwn hefyd yn dymuno siarad â chyflogwyr yn y sector adeiladu.

20. Bydd cyhoeddi'r Papur Gwyrdd hwn yn arwydd o'r momentwm cynyddol y tu ôl i'r gweithgaredd hwn o gysylltu â chyflogwyr. Bwriadwn barhau i gysylltu â chyflogwyr ar lefel uwch i sicrhau eu cefnogaeth a byddwn hefyd yn gweithio gydag adrannau o'r llywodraeth ac awdurdodau lleol i sicrhau bod yr addewid yn cael ei gwireddu yn y sector cyhoeddus yn ogystal â'r sector preifat. Mewn ardaloedd Strategaeth Dinasoedd byddwn yn gofyn i Gonsortia gefnogi'r cynllun hwn. A bydd Canolfan Byd Gwaith yn parhau i weithio gyda'r Panel Cyflogaeth Cenedlaethol a'i olynydd, Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r DU, er mwyn cysylltu â chyrff cyflogwyr lleol wrth recriwtio cyflogwyr yn rhanbarthol.